

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyhoeddus cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **14 Mawrth 2016** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-03/16: Presennol**

Cadeirydd Cyng. W A Evans

Is-Gadeirydd Cyng. R Cadwalader

Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Sian Williams; Cyng. Liz Regan; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Henry Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Phil Jones; Cyng. Elizabeth George

Cynrychiolwyr Age Cymru: Stephen Williams, Dafydd Iwan, Sioned Jones

### **2-03/16: Ymddiheuriadau**

Cyng. R T Price; Cyng. Dafydd Lloyd

### **3-03/16: Datgan diddordeb**

Cyng. Elizabeth George – eitem 5/03/16 – Gŵyl Criccieth

### **4-03/16: Cadarnhau cofnodion mis Chwefror**

Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr fel rhai cywir a llofnodwyd hwy felly yn unol â'r gyfraith.

### **5-03/16: Cymynrodd J T Roberts – adroddiad Age Cymru**

- Adroddodd y cynrychiolwyr mai'r prif daliad o'r cymynrodd yng Ngriccieth yn ystod 2015-16 oedd £50 y mis ar gyfer costau tacsï. Roedd Age Cymru wedi derbyn grant oddi wrth Gronfa ICF ac felly nid oedd rhaid defnyddio cyn gymaint o arian y cymynrodd eleni. Roedd grant ICF yn talu am gostau staff Encil y Coed.
- Byddai copi o'r adroddiad terfynol am 2015-2016, ynghyd â'r cyfrifon, yn cael eu danfon i'r Cyngor Tref ym mis Ebrill.
- Rhwng Ebrill a Rhagfyr 2015, gwnaeth 47 o bobl fynychu'r sesiwn yn Encil y Coed ar ddydd Mawrth – 90% ohonynt o Griccieth. Roedd 15 o'r bobl hynny wedi mynychu'r sesiwn am y tro cyntaf.
- Roedd Age Cymru yn cael defnydd am ddim o Encil y Coed, ond roedd yna ansicrwydd am y sefyllfa yn y dyfodol oherwydd toriadau'r Cyngor Sir.
- Cydnabyddwyd bod angen mwy o waith i hysbysebu'r gwasanaeth ac ei bod yn gallu bod yn anodd i berswadio pobl i fynychu'r fath sesiynau am y tro cyntaf. Bu yna ymgyrch hysbysebu trwy gyfrwng taflenni yn Ebrill 2015, ond gweddol siomedig oedd yr ymateb, ond pwysleisiwyd bod yna ragor o botensial yng Nghriccieth.
- Trafodwyd y syniad o ymestyn y gwasanaeth i fwy nag un diwrnod.
- Roedd Age Cymru yn awyddus i dderbyn syniadau ychwanegol gan y Cyngor Tref ar gyfer y dyfodol e.e. hampers i bobl dros 80 adeg y Nadolig . Penderfynodd yr aelodau i drafod syniadau ac i dynnu rhestr at ei gilydd yn ystod cyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor Tref.
- Derbyniwyd gais gan Wyl Criccieth am gyfraniad o'r cymynrodd i ariannu perfformiadau gan Opra Cymru yn Encil y Coed a/neu mewn cartrefi preswyl yn ystod yr ŵyl. Penderfynodd yr aelodau i bennu cyfraniad penodol yn ystod cyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor Tref.

### **6-03/16: Eitemau brys ac er gwybodaeth**

Roedd Gŵyl Cristnogol Llanw yn dymuno hysbysu'r Cyngor Tref eu bod yn mynd i gynnal digwyddiad ger y Neuadd Goffa/Maes ar 29 Mawrth, ac eu bod yn gwneud cais am drwydded gan Gyngor Gwynedd.

### **7-03/16: Gohebiaeth**

- a. Llythyr parthed cyfweiliad ar gyfer swydd y Clerc  
Penderfynodd yr aelodau i gysylltu yn ôl unwaith y byddant wedi rhoi ystyriaeth lawn i'w sylwadau trwy ymchwilio'r mater a derbyn cyngor.
- b. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn: Cofrestr Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Adnau  
Derbyniwyd yr wybodaeth.
- c. Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor Unllais Cymru (23 Mawrth)  
Derbyniwyd yr wybodaeth.
- d. Cyngor Gwynedd – Biniâu halen  
Cadarnhawyd nad oedd yna finiau halen yn y dref.
- e. Hyfforddiant Unllais Cymru (Ebrill)  
Derbyniwyd yr wybodaeth.

### **8-03/16: Ceisiadau Cynllunio**

#### Cais C16/0228/35/LL

Cais llawn i godi tŷ deulawr newydd gyda datblygiadau cysylltiol gan gynnwys addasu mynedfa gerbydol bresennol – Tir ger 1 Antipodes Terrace, Criccieth, LL52 OBE

Penderfyniad: Dim sylwadau.

#### Cais C16/0233/35/LL

Diwygiad i gais a wrthodwyd o dan C15/0963/35/LL ar gyfer codi tŷ newydd, creu mynedfa newydd a chodi adeilad newydd.

Penderfyniad: Dim sylwadau

*Ni gymerodd y Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol ar Gyngor Gwynedd, unrhyw rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar y ceisiadau cynllunio hyn.*

### **9-03/16: Toriadau Cyngor Gwynedd – Adborth o'r cyfarfodydd**

Adroddodd Cyng. Eirwyn Williams, yr aelod lleol, bod y cynghorwyr wedi pleidleisio ar yr awgrymiadau a ddaeth yn sgîl ymgynghoriad Her Gwynedd. Nid oedd manylion penodol parthed gwasanaethau unigol ar gael eto – e.e. pa doiledau yn union y bydd yn cael eu cau – ond bydd y penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn ystod y misoedd nesaf.

### **10-03/16: Unedau ger Croesfan Merllyn (Hen sied gychod)**

Lleisiwyd pryder am yr unedau hyn, gan gynnwys eu uchder. Mewn llythyr i'r Aelod Seneddol lleol, eglurodd swyddog Cyngor Gwynedd bod y newid i'r uchder terfynol yn cael ei ystyried yn 'de minimis' ac felly nid oedd Cyngor Gwynedd yn credu bod yna sail i gynnal ymchwiliad ffurfiol i'r mater.

Trafododd yr aelodau pwynt 7 o ddyfarniad Cyngor Gwynedd ar y cynlluniau – *“Bydd yr unedau gwyliau at ddibenion gwyliau yn unig ac ni fyddant yn cael eu meddiannu fel unig neu brif breswyfa y person. Bydd perchnogion/gweithredwyr yr unedau yn cadw cofrestr a chofnod cyfamserol o enwau holl berchnogion/deiliaid yr unedau ar y safle a chyfeiriadau eu prif gartref a byddant yn sicrhau bod y wybodaeth ar gael bob adeg resymol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol”*. Penderfynwyd i roi'r eitem yma ar y rhaglen ar ddiwedd yr haf ac i wneud cais i weld y gofrestr yma yr adeg honno.

### **11-03/16: Darn tir gyferbyn â Gwesty'r George**

Derbyniwyd adroddiad trwy e-bost gan Gwyn Lloyd Evans, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd. Roedd wedi ymweld â'r safle ac yr oedd yn cadarnhau bod rhan o'r tir dan sylw wedi gordyfu â llystyfiant amrywiol. Ar ôl asesu a yw'r safle yn cyfiawnhau cyflwyno rhybudd dan ddarpariaethau Adran 215 y Ddeddf

Cynllunio Gwlad a Thref 1990, nid oedd yn ystyried “*ei bod yn briodol cymryd camau gorfodaeth gan nad yw gwedd y safle yn ddigon bler nac yn effeithio ar fwynderau trigolion yn lleol.*”

Penderfyniad: i drefnu cyfarfod maes gyda'r Swyddog Gorfodaeth.

### **12-03/16: Parcio ger Bwyty Dylan's**

Adroddodd y Cyng. Wayne Roberts bod ceir bellach yn parcio ar y man cerdded rhwng y groesfan rheilffordd a'r bwyty. Roedd hyn yn creu sefyllfa beryglus i gerddwyr, pobl â phramiau a chadeiriau olwyn a oedd o ganlyniad yn gorfod tramwyo ynghanol y ffordd ac, oherwydd bryncyn y groesffordd, yn methu gweld y traffig a oedd yn dod i'w cyfarfod dros y groesfan.

Roedd parcio ar y ffordd wedi cynyddu ers i'r bwyty agor wrth i bobl ceisio osgoi'r tâl parcio. Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd angen parcio ar y llain ochr gan fod yna ddigonedd o le yn y maes parcio cyfagos a bod y tâl o £1 yn un rhesymol.

Teimlodd yr aelodau bod angen gosod palmant ar hyd y man cerdded gyda bolardiau i atal ceir rhag parcio yno.

Penderfyniad: I drefnu cyfarfod maes gyda swyddog Cyngor Gwynedd, Colin Jones, i drafod y sefyllfa.

### **13-03/16: Llwybr 11**

Adroddodd y Cyng. Wayne Roberts bod cyflwr y llwybr wedi dirywio ymhellach, bod y gamfa a'r glwyd yn beryglus a bod y weiren bigog dal ar y wal.

Penderfyniad: I ysgrifennu eto i Gyngor Gwynedd i leisio pryder ac i bwysu arnynt i weithredu. I gadw'r mater yma yn agored.

### **14-03/16: Parcio ger Llwyn Brith a Salem Terrace**

Ffordd ger Llwyn Brith: derbyniwyd gynlluniau gan Gyngor Gwynedd i osod llinellau melyn 'dim aros ar unrhyw adeg' i redeg ar hyd y ffordd o'r safle bws ger Caerfa, ac hefyd o flaen Berwyn.

Penderfyniad: i ddiolch i'r swyddog ac i dderbyn y cynllun.

Salem Terrace: cadarnhad o'r cynlluniau a oedd eisoes wedi eu derbyn gan y Cyngor Tref.

### **15-03/16: Llwybr o Benaber i'r parc/gardd gwyllt**

Derbyniwyd gadarnhad gan adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd y byddant yn darparu pris ar gyfer gwneud y gwaith o ddatrys y broblem dŵr.

Penderfynwyd i gadw'r mater yma ar y rhaglen ym mis Ebrill.

### **16-03/16: Seremoni'r French Commandos**

Adroddodd y Cyng. Robert Cadwalader ei fod wedi cyfarfod â'r trefnydd, Noel Rabouhans, a bod y trefniadau ar gyfer gosod y gofeb, y seremoni ei hun, a'r dathliadau cysylltiedig, bron â'u cwblhau. Roedd Mr Rabouhans mewn cysylltiad gyda Barry Davies, swyddog morowrol Cyngor Gwynedd, ynghylch trefniadau yn ymwneud â'r ymgynnull ar y traeth/palmant o flaen y gofeb. Roedd Cadw wedi rhoi caniatad i chwifio baner Ffrainc o gastell Criccieth ar y diwrnod.

Os oedd unrhyw un yn dymuno rhoi llety i'r chwech commando a fyddai'n mynychu'r seremoni, yna byddai Mr Rabouhans yn ddiolchgar o glywed oddi wrthynt.

### **17-03/16: Gwaith ar y wal fôr**

Adroddodd y Cyng. Eirwyn Williams bod y gwaith i drwiso'r draen ar hyd y wal o flaen Min-y-Mor wedi ei gwblhau, er bod y gweithwyr wedi gadael twmpath o gerrig mawr. Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn iddynt symud y cerrig oddi yno.

Twll yn y wal fôr o flaen Abereistedd – nid oedd y gwaith yma wedi ei gwblhau eto. Ar ôl ymchwilio gyda chamera, roedd Cyngor Gwynedd bellach wedi darganfod bod y beiben ddŵr wedi cracio a thorri a bod angen gwneud mwy o waith na'r disgwyl. Penderfynwyd i gysylltu â'r Cyngor i dderbyn diweddariadau am y gwaith.

Cytunwyd bod y wal fôr gyfan yn edrych yn fler a bod angen gwneud gwaith cynhwysfawr arni erbyn hyn.

#### **18-03/16: Hysbysfwrdd ar y Maes**

Roedd cefn yr hysbysfwrdd yn pydru ac yr oedd yn anodd iawn i'w agor.

Cytunodd y Cyng. Henry Jones i drefnu i gael gweithwyr i wneud y gwaith.

#### **19-03/16: Derbyniadau**

- Taliad Cynnal Hawliau Tramwy (Cyngor Gwynedd) £709.98

Derbyniwyd yr wybodaeth.

#### **20-03/16: Taliadau**

- Cyllid y Wlad (PAYE) £ 76.60

Rhodddwyd ganiatad i'r clerck i dalu'r biliau.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 y. h.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref ar **nos Lun, 11 Ebrill 2016**

**\*\* Bydd y rhaglen yma yn cau 4 Ebrill 2016 \*\***

---